Cyfres Llanbedr | Ebrill, 1929. | Cyf. 29. Rhif 4.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. — Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Darlun—
Capel Ciliau Aeron.
Rhestr o Weinidogion y Ciliau.
Hanes Capeli'r Enwad—
Ciliau Aeron.
Shon Wahoddwr.
Dalennau o'm Dyddiadur.
Hen 'Wyllys.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. EBRILL, 1929. Cyf. XXIX. Rhif 4.



CAPEL CILIAU AERON.

Rhestr o Weinidogion y Ciliau.

I. CYFNOD CYMYSG (1654—1755/60)

Rice neu Rees Powell (1653—1665).
David Jones (—1662—1704).
Evan Hughes (1653—1672—).
David Edwards (1688—1716).
Philip Pugh (—1709—1760).
Evan Davies (1726—1737).
Timothy Davies (1737—1760). (Yr oedd Timothy Davies yn Ariad mae'n debig).

(Gwel rhestr Caeronnen am enwau rhai a fedrai fod wedi pregethu yma).

II. Y CYFNOD ARIAIDD (1755/1760—1846—1859).

Daniel Gronw 1760—1769.
David Lloyd 1768/9—1779.
David Davies 1768/9—1820.
Samuel Griffiths 1780—1781 .
Richard Lloyd 1782—1784
Dr. Charles Lloyd (supply) 1787—1788
Griffith Griffiths (supply) 1788—(1790)
Richard Lloyd (iterum) 1791—1797
Arthur Williams (supply) (1798)—1799.
David Saunders (supply) (1800)—1801.
Timothy Davis 1801—1810.
John Jones 1811—(1814).
David Lewis Jones 1812—1814.
William Rees (1814)—1820—(1822 ?)

} Cynorthwywyr David Davis. (Lloyd Letters tdd. LXII—LXIII. (W.J.E.).

Thomas J. Griffiths 1822—1841.
Daniel Evans 1841—1842 ?

III. Y CYFNOD UNDODAIDD.

Thomas Emlyn Thomas 1842—1846.
Thomas J. Griffithis (iterum) 1846—1848.
Peter Joseph 1848—1852/3.
Supplies (John Jeremy ac eraill hwyrach) 1853—1858.
William Rees 1859—1893.
Lewis Williams 1894—1916.
David Cellan Evans 1916—1919.
David Conwil Evans 1919—1929—?

Hanes Capeli'r Enwad yn Sir Aberteifi.

IV.—CILIAU AERON.

AWGRYMAI Glasynys mai "merch hynaf Hanes yw Traddodiad" ond er nad ellir eu croniclo fel ffeithiau moel Hanes, y mae ogof Cwmhwplin, Y Byllbo a mannau ger y Ciliau yn awgrymiadau byw o'r erlid creulon ac o'r ysbryd di-ildio yng nghalon gwerinwyr syml y Sir. Y mae'r enw Ciliau yn darlunio cynulleidfa wedi encilio megis o'r byd i'r unigfeydd er cael rhyddid i addoli Duw. Nid yw hanes y Ciliau nemor yn wahanol i hanes Cae'ronnen a cheir hanes eglwys Rice neu Rees Powell, Ficer Llanbedr, a dechreu Anghydffurfiaeth dan Gae'ronnen. Sicr fod yma bregethu hwnt ac yma'n fore canys fe geir trwydded i Ddihewid yn 1672.

Lle	*Trwydded*	*Dyddiad*	*Tud. ynE.B.*	*Hanes yn* 1660—62	*Sect*
Dihewid	Ty Philip Dafydd	Hyd. 26	266.	.....	Cynnull-eidfâwyr.

(Wales under the Indulgence.—P. 156).

Y mae'r hanes rywsut yn brinach am Giliau ac y mae'n od na cheir cofnod am Giliau yn Llyfr y Cilgwyn (dyfyniadau W. D. Jeremy). Fe gawn yno awgrym fod pregethu yn y Sir oherwydd rhoir

"A list of such as were members of a church of Christ gathered in Cardiganshire from the year 1653 to the year 1659,—

Lampeter, March 4, 1654,

Rees Powel, Pastor.

Evans Hughes, etc., etc.

Llanarth, Sepr. the 9th, 1654.

Fe enwir Bettws, Llanarth, Llanbadarn Fawr, Llangoedmor, Llanbadarn Odwyn, Garthely, Abermeurig, fel canghennau neu fannau cyfarfod ond dim sôn am Giliau, ac y mae'n od na cheir sôn am Giliau ychwaith yn nyddlyfr Timothy Davies, Caeronnen, ac yntau ond odid yn cael ei enwi fel gweinidog yno.

Yn " Lists and Classifications of Presbyterian and Independent Ministers between 1717 and 1731, ceir,—

Place	*Minister*	(*Gwrandawyr*)	*Social and Political Standing.*
Kilgwyn and 5 or 6 other places, I.	David Edwards, Jenkin Jones, Philip Pugh,(scholars)	1000	20 voters.
Llanedi, Crugybar, Crugymaen P	David Penry, Owen Hughes, David Jenkins	600	30 voters.

Fe welir ar unwaith fod ystadegau Dr. John Evans, yn amwys, ac ni wyddom a ydyw Ciliau yn y " 5 or 6 other places " ond dengys y mil gwrandawyr fod Eglwys Aberteifi yn flodeuog yn nechreu'r ddeunawfed ganrif a chymryd popeth i ystyriaeth. Fe wel y llygadcraff heb ei nodi na ddylid cysylltu Crugymaen â Llanedi a Chrugybar ond dylasai ddod dan y " 5 o'r 6 other places " mewn cysylltiad a Khilgwyn.

Fe geir hefyd yn y Llyfrgell Genedlaethol (M.S. 4558 D.) hen lyfr *Eglwys Rhydwilym* a rydd y bedyddiadau yno o'r flwyddyn 1667 dan 1669. Gwyddom am fedyddio Tomos David Rees o Lanarth (Moyddyn-fawr) a sicr fod yna Anghydffurfwyr yn y fro yn fore oherwydd ceir yn Llythyr Henry Maurice i Edward Terrill 1675,—" There are also here (Cardiganshire) a party of Baptists, under imposition of hands, that are joined to Mr. William Jones's Church in Caermarthenshire, whereof hereafter."

Y mae'r hanes am Giliau yn niwlog am y ganrif gyntaf o'i hanes ond credaf y gellir bod yn sicr fod Rice neu Rees Powell, Evan Hughes, David Jones, David Edwards, Philip Pugh ac eraill yn gofalu am yr eglwys ar wasgar, weithiau hwyrach yn Nihewid ac weithiau yn nes i waered i'r dyffryn. Nid ydym yn dod i dir sicr nes darllen am Ddavid Davies y Foelallt—perchen y Foelallt ond odid yn 1760—yn codi yn 1775 Dy Cwrdd yn y Ciliau a'i alw yn Bethania ac fel Capel Bethania y ceir y sôn cyntaf am Dy Cwrdd y Ciliau—nid cynulleidfa y Ciliau cofier. Fe'i trwyddedwyd fel lle i addoli yn y Chwarter Sasiwn yn Aberteifi ar Hydref 8, 1755. (*Welsh Gazette*, Meh. 14, 1900.—G.E.E.). Yr oedd rhywbeth yn rhyddfrydig yn Navies y Foelallt oherwydd efe

hefyd a adeiladodd Eglwys y Ciliau. Ymhell cyn hyn yr oedd pregethu yn y Ciliau a'r gynulleidfa yn ddigon byw i gwestiynau diwinyddol i gweryla yn eu cylch, fel y dengys ymneillduo rhai i Neuaddlwyd 1746 a ffurfio Eglwys Annibynnol yn 1760. Cyn 1744 ond odid yr oedd gweinidogion y Ciliau fel gweinidogion Caeronnen wedi cefnu ar Galfiniaeth gydag yn unig eithrio Philip Pugh—yr oedd ef yn dewis eistedd ar y clawdd ffin. Yn 1745 fe urddwyd David Lloyd yn weinidog yn y Llwyn ac yr oedd Timothy Davies, Caeronnen yn bresennol ond gwell gan Philip Pugh er galw ohono Lloyd "the rising sun" oedd ymesgusodi. Bu farw Philip Pugh, Gorffennaf 12, 1760 a chyda codi Capel y Ciliau yn 1755 a marw Philip Pugh yn 1670 y ceir tir diogel yn hanes Capel y Ciliau—ac yntau erbyn hyn yn gapel Ariaidd. Y mae'n werth cymharu a chofio codi ail gapel Caeronnen yn 1746. Dengys y dyddiadau hyn mai tua chanol y ddeunawfed ganrif, a than ddylanwad Eglwys y Llwyn a'i gweinidogion y troes yr hen gynulleidfaoedd cymysg a Phresbyteraidd mewn enw o leiaf yn gynulleidfaoedd Ariaidd. Tua'r un adeg hefyd (1760) yr ymedy'r Calfiniaid olaf o Giliau gan ymneillduo i'r Graigwen a ffurfio'n ddiweddarach Eglwys Annibynnol Ty'nygwndwn. Dyma'r cyfnod y torrodd Ciliau ond odid ei gysylltiad yn rhannol a Chaeronnen gan gerdded yn gyflymach law yn llaw â Llwyn.

Yn 1760 daeth Daniel Gronw, aelod o Eglwys Mynyddbach wedi ei addysgu yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin yn gydweinidog a Thimothy Davies gyda gofal Ciliau a Neuaddlwyd arno. Tra arosodd yma cynorthwyodd Ddavid Lloyd i ofalu am Benrhiw a Mydroilyn. (Ymof. 1868, t. 135). Yn 1769 ymadawodd a Chiliau gan ymsefydlu yn y Bala.

Wedi ymadael o Gronw torrwyd y cysylltiad olaf â Chaeronnen a chymerodd gweinidogion y Llwyn ofal o Giliau. Yr oedd David Davis eisoes cyn ymadael o Gronw wedi bod yn pregethu yng Nghiliau ac ar Ionor 1, 1769 ymsefydlodd fel cynorthwywr David Lloyd ym Mhlasbach Ciliau. O 1768—1769 hyd 1820 bu Dafis Castellhywel a'i gynorthwywyr yn gwasanaethu yma.

Yn 1801—2 bu anghydfod yn y Llwyn, Alltyblaca a'r Ciliau oherwydd cerdded o Ddafis yn rhy araf. Ariad ydoedd. Myn Dr. Charles Lloyd yn y Monthly Repositary am 1817 tud. 743 mai canlyniad y mudiad ym Mrechfa gan Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi) a gefnogwyd gan Lindsey oedd yr ymneillduo a chodi'r capelau Undodaidd cyntaf yng Nghymru. Dywed Dafis mewn llythyr dyddiedig Chwef. 2, 1803, parthed yr ymneilltuo "9 neu Ddeg o'r Llwyn, 50 o Alltyblaca a thuag ugain o Giliau."

O gofio i Ddavid Jenkin Rees ddechreu pregethu yn Lloyd Jack o leiaf yn 1802 ynghydag awgrym y Prifathro W. J. Evans, M.A., ei fod yn aelod gwreiddiol o Giliau, caraf i gredu fod David Jenkin Rees yn un o'r ugain a ymadawodd o Giliau gan ddechreu ffurfio ond odid Eglwys Ystrad neu Rydygwin erbyn hyn. Credaf fod y ddamcaniaeth yn gywir oherwydd ceir yn y Monthly Repository 1818 (td. 740) y nodyn hwn "David Lloyd of Llwynrhydowen was his (David Jenkin Rees) minister to whose influence he also owed much. D.J.R. was about 17 years old when Dd. Lloyd died (1779)." Rhydd hyn help i ni ddyddio David Jenkin Rees 176(2)—1817. Ni cheir sôn am Giliau gan Lyons yn 1811 er iddo bregethu yn y Llwyn ond dywed y Cenhadwr Wright yn 1816,—

"There are five congregations in this county who rank as Arians. They meet at the following places,—

1. Llwynrhydowen
2. Penrhyw
3. Cilieu
4. Alltyblacca

} Of these four Mr. Davis and Mr. Wm. *D*ees are the ministers.

5. Llechryd Of this Mr. Griffiths is the Min.

Erbyn 1830 fe wneir cynnig am *census* o gynulleidfaoedd ac addolwyr Undodaidd ynghylch y flwyddyn 1830 (Inquirer, Feb. 27, 1897) lle ceir,—

"Cilie. Thos. Griffiths. 100—200."

Dengys hynyna fod yr achos yn y Cilie yn flodeuog yn nechreu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Wedi ymneillduo o Ddafis Castellhywel yn 1820 ni cheir sôn am weinidogion y Ciliau dan apwyntio Thomas Griffiths (Tau Gimel) yma yn 1822. Ni chredaf fod angen cloffi nemor yma. Yn 1816 yr oedd Wm. Rees yn gyd-weinidog â Dafis a sicr wedi iddo gymryd prif ofal yr eglwysi nad anghofiodd Giliau. O 1822 dan 1859 y mae Ciliau a Chribin yn cydgerdded. Bu Griffiths yma dan 1841 nes mynd ar ei bererindod. Bu Daniel Evans (gwel hanes Cribin) yma rhyw flwyddyn neu ddwy a Thomas Emlyn Thomas (Taliesin Craigyfelin) o 1842 i 1846 hyd nes ailgydiodd Thomas Griffiths am ryw ddwy flynedd. Yn 1848 ordeiniwyd Peter Joseph yma ac arosodd yma dan 1853 nes ei alw yn ol i gydweinidogaethu a John Davies wedi ymadael o Ddavid Evans, B.A. o'r Llwyn am Faesymeillion.

Y mae'r pum mlynedd o 1853 dan 1858 yn dywyll i mi. Y mae'r un peth yn wir am y cyfnod yn y Cribin. Ni sonia'r YMOFYNNYDD nemor ddim am Giliau na Chribin ac ni cheir cofnodion o farwolaethau o'r ddau gapel. Carwn pebai rhywun yn medru goleuo ychydig ar y cyfnod tywyll hwn—i mi o leiaf. Y mae'n hawdd credu y gallasai John Jeremy ac eraill fod yma ond nid oes dim sicrwydd. Gyda therfyn y cyfnod hwn torrir y cysylltiad a Chribin. Y mae'r hen elyniaeth wedi marw a medr yr un gweinidog wasanaethu Ciliau a Rhydygwin. Y mae'r cymharu yn ddiddorol eto. Yn 1846 y codwyd Capel Caeronnen—y Capel diweddaf a noda hyn ond odid ddechreu y Cyfnod Undodaidd yno. Nid wyf yn sicr na wnai'r un dyddiad y tro i Giliau er y gallesid hwyrach ei ddyddio o ddyfod Thomas Emlyn Thomas yno yn 1842, ond y mae'n berffaith sicr y gellir edrych ar Giliau fel Cynulleidfa Undodaidd o ddyfod William Rees yma yn 1859 gan ei chyfuno a Rhydygwin.

O'r adeg honno hyd heddiw y mae'r hanes yn llifo'n glir. Fe gofia'r mwyafrif o'r darllenwyr am hen Gapel y Ciliau. Yr oedd yn edrych yn hên a gwargam ac wedi ei adeiladu i mewn megis i ochr y bryn. Yr oedd yn anghyfleus ac anghysurus a chynhygiwyd tir er codi capel newydd yn 1870 (gwel YMOF. 1876, td. 70) gan Jenkin Evans, Tynant ond ni theimlai'r gynulleidfa fach fel ymadael o'r hen gartref. Ymhen rhyw chwarter canrif (tua 1894) trwy ymdrechion y diweddar Barch. E. Ceredig Jones, M.A., prynwyd yr hen sail ynghyd a darn o dir fel mynwent ac yn 1898—9 codwyd capel newydd yn y Ciliau. Erys fel côf-adail i Geredig.

Gwasanaethwyd am y tro olaf yn hen gapel y Ciliau ar Ionor 30, 1898, a phregethwyd gyntaf yn y Capel Newydd ar Fai 9 a 10, 1900. Nid oes galw am oedi ar y ffordd. Y mae'r gynulleidfa a grynhowyd yn ardal Dihewid a'r Ciliau gan Rice neu Rees Powell ac eraill yn nyddiau'r Werin-lywodraeth wedi cerdded yn gryf ar draws y canrifoedd, ac y mae wedi cadw ar flaen y llanw. Y mae'i chenhadon a'i phlant o Bowel i Geredig fel cwmwl o dystion uwch ei phen gan ei chyfeirio i gerdded yn sicrach at y dydd yng ngolau'r *dors* fflamllyd a ymddiriedwyd iddi gan y teidiau gynt.

O.

Shon Wahoddwr.

(ATGOFION HEN WR).

MAE'R byd yn od. Fel hyn heddiw : fel arall yfory. Ys dywedir ambell dro "mae'n newid bob lleuad." Mae'n newid ond ni wn am bob lleuad. Yr un yw'r hen leuad a phan adlewyrchodd olau'r haul y tro cyntaf erioed. Er pob newid, caraf i sôn am yr hen amser gynt. Y mae cornel gynnes yn fy nghalon i 'slawer dydd. Pe bawn yn credu mewn *re-incarnation* esboniwn fy nghariad at slawer dydd fel rhyw frith gof am yr adeg y bum yma gynt. Fel arall ond odid y credai Wordsworth gan esbonio gwên a breuddwyd plentyn bach fel rhyw atgofion am y byd tragwyddol. Oni bum yma o'r blaen, gwn y ffordd i 'slawer dydd. Nid yw ond lôn fach gul a'r Feillionen 'Spaen fel cadwyni aur ar y cloddiau ac ambell Ddraenen Wen i awgrymu arian ond odid yn gymysg a'r aur. Ar ben y lôn y mae bwthyn to gwellt gwyngalchog, border bach a hên ŵr yn medru galw 'slawer dydd yn ol. Y mae crefft ar y border, y tô a'r atgofion a'r crefftwr ei hun weithian yn y gornel wrth y tân yn pesychu'i chalon hi—yr hen engin yn achwyn wrth dynnu'r llwyth i ben y rhiw dyna i gyd. Ni wyddom nemor ddim am dân heddiw. Yr oedd rhywbeth yn ardderchog mewn tân llawr—hen stoncyn cnotiog a'r tyweirch o'i gylch. Nid oedd berigl llosgi. Nid ai neb yn ddigon agos. Eto rhoer i mi y grât teirtroed cetyn lleuad a'r clai gylch ymyl y grât mor wyn a'r caprig. Pleser yw eistedd am ddwyawr neu dair wrth dân felly. Y mae'n gwasgar ei groeso siriol ar bob llaw a thybiaf ei bod yn hawdd byw'n bur ar aelwyd felly. Trois yno neithiwr a'r hen ŵr yn disgwyl. Dyweedai'r ferch ei fod yn eu gweld nhw yn y tân drwy'r prynhawn. Ni charai hi mo'r mŵd ond gwyddwn i ei fod yn ol yn 'slawer dydd.

Bu unwaith yn unionsyth ond bellach yr oedd y ddau pen yn chwilio'i gilydd a'r llaw a'r ên yn crynu mewn cydymdeimlad. Nid oedd olau yn y llygad pŵl—y blinds wedi'u tynnu'n barod ond odid. Ni welai neb ond pobol slawer dydd—pobol yr oeddwn innau am eu gweld.

"Shon Wahoddwr, wetsoch chi?" meddai ac yna dechreuai siarad ag ef ei hunan. "Druan o Shon! Nid oedd ond ugain mlwydd yn hŷn na mi. Yr oedd o'n wâs mawr a minnau'n fugail yr Hafod. Rwy'n cofio fel tae ddo arno'n priodi a mynd i fyw i Danylôn. Ydyw. Y mae'r hên fwthyn bach wedi mynd a'i gorn tano ers llawer dydd. Ni welodd Shôn amser da, ac rwy'n

cofio'r tro cyntaf yr aeth drwy'r ardal fel gwahoddwr. Na! nid oes wahoddwr heddiw. Shôn oedd yr olaf o'r hen frigade a gwahoddwr nobl ydoedd. Yr oedd yn dipyn o brydydd gyda llaw ac nid oedd ei ail fel storiawr. Beth? Wedes i mo hanes y briodas fawr wrtho' chi? Wel! Wel!

Ar brynhawn dydd cyntaf o Ebrill trigen mlynedd yn ol, rwy'n cofio'r dydd yn dda, pwy welswn i yn dod at iet y clôs ond Shôn a'i gŵd ar ei gefn. Yr oedd yn *gwaeedd* ac nid adroddodd yr un *person* ei lith yn well na Shon,"—

"Pawb sydd yn y tŷ, yn wrywod a benywod, gwrandewch! Gan fod John Owens a Rachel Jones yn bwriadu cymmeryd arnynt yr Ystâd Briodasol ar ddydd Mawrth, yr Heg o'r mis presennol, fe'u cefnogir gan eu cyfeillion i wneuthur Neithior a Gwledd De ar yr achlysur, yr un diwrnod, yn Nhy y Ferch Ieuanc, a elwir Penrhiw-oleu, yn Mhlwyf Cenarth: y pryd a'r lle y deisyfir yn ostyngedig eich llon gyfeillach a pha anrheg bynag a weloch fod yn dda eu cynnysgaeddu â hi, a dderbynir yn ddiolchgar, ac a ad-delir yn siriol, pa bryd bynnag y gelwir am dani ar yr unrhyw achlysur.

* * *

"Y mae y Mab Ieuanc yn nghyd a'i Frawd yn dymuno i bob Rhodd o'r cytryw natur ag sydd ddyledus iddynt hwy, i gael ei dychwelyd i'r Mab Ieuanc, ar y diwrnod rhagddywededig, a hwy a fyddant yn dra diolchgar am bob Rhoddion ychwanegol. Hefyd, y mae y Ferch Ifanc yn dymuno i bob Rhoddion ag sydd ddyledus iddi hi, â'i Chwaer ymadawedig, i gael eu dychwelyd ar y diwrnod hwnw, a hi rodda ei diolchgarwch gwresocaf i bob un a ddangoso unrhyw garedigrwydd ychwanegol iddi" *

"Y mae geiriau Shôn yn fy nghlustiau'r funud yma. Ni chlywa i glustod ers blynyddoedd ond rwy'n clywed Shôn. Tâl? Yr oedd ewŷd Shôn yn llawn o flawd ceirch neu gatiau o gaws neu hanner torth, a chai ambell geiniog gan y morynion am fynd dros ei ffrâs. Nid yn aml y byddwn i yn mynd ond yr oedd arna i ddyled i Shoni. Mr. Owens fusech chi'n ddweyd heddiw. Cefais fenthyg y cel main gan fy hên feistr. Machgen bach i! R'ych chi'n sôn am fotor cars, ond beth pe bait ar gefn y cel main. Saethu!

---

* A Bidding Notice—Isaac Thomas, Argraffydd, Aberteifi. "Gleanings from a Printer's File, P. 24."

Fe ddwedai newythr a oedd yn rhyfel Boni na thaniwyd yn Waterlŵ mo hanner yr ergydion a daniwyd y bore hwn. O draw fe welid gwŷr y *shigouts* yn dod i chwilio am y ferch ieuanc rhag ei cholli. Wedi dod at ddrws y tŷ ni cheid mynd i mewn. Yr oedd yno borthor yn gwylio'r drws a rhaid oedd barddoni'r ffordd i mewn. Wedi cael y ferch a mynd i'r llan a phriodi, nid oedd hynyna ond dechreu gofidiau mewn rhagor nag un ystyr. Carlamu! Beth oedd clawdd ac iet i'r cel main, a phob cwynten ac ergyd yn peri iddo garlamu'n gynt. Sonir heddiw am ryw Sigrêf yn mynd bedair milltir y funud yn yr Amerig. Ni wn i pa mor gyflym yw hynny ond os oedd yn gynt na'r cel main y bore hwnnw wn i ddim beth i ddweyd.

Wedi cyrraedd yno a gweld y dorf, bobol fach! Hwn a'i rodd a hon a'i phwython a'r hen fasin glâs ar ben y ford yn llawn o arian gwyn. Ie, dyna neithior i ti. Pob un yn yr ardal yn dod o barch i'r pâr ifanc a hwythau'n dechreu eu byd a phethau neithior —phiolau a llwyau pren, llestri tê, unpeth a phopeth yr oedd galw amdano mewn ty gwâg a'r hen Shôn y Gwahoddwr yn wên o glust i glust.

Beth? Chwerthin ai ie? Y mae'r ffashwn yn newid mae'n wir ond paid bod yn rhy shwr fod y byd yn gwella. Ddoe yr oedd Fanny'n cyfieithu tipyn o'r papur newydd. Choelia i fawr fod y byd yn gwella, gyda'r lladd a'r ysgaru a'r creulonderau. Nid oedd nemor sôn am bethau slawer dydd. Onid oedd pâr yn byw'n hapus gynt. Nid oedd dim amdani ond rhoi *ride* iddo ar gefn y Ceffyl Pren. Dyna *serten cure*. Nid oedd galw ond am gymryd y ceffyl pren o'r stabal a dim ond ei glywed yn gweryru unwaith neu ddwy fe ddofid yr ysbryd câs. Y mae'n amheus iawn gennyf faint y mae'r byd wedi wella. Y mae'r ffashwn yn newid dyna i gyd, ond pe doi Shân yn ol yfory, (ddaw hi ddim fel y mae gwaetha'r modd), mynnwn i gael yr hen Wahoddwr, gwŷr y Shigowts, priodas fawr a Neithior, ie, a'r Ceffyl Pren yn y fargen."

Chwarddai wrtho ei hun am dro. Yr oedd o yn gweld Shân, Shôn Wahoddwr a llu o'r hen gwmni 'slawer dydd. Ni fedrwn aflonyddu ar y gymdeithas felys â'r anweledig. Bob yn dipyn doi oddiwrthynt ac meddai'n ddistaw "Glywaist ti'r penillion hyn," gan adrodd wrthof hên rigwm 'slawer dydd,—

"Dyna f'enw Shôn Wahoddwr,
'Slawer dydd yr own yn arwr;
Croeso gawn gan bawb yn union
Fel negesydd dros gariadon.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

— CYNHELIR —

Cyrddau Chwarter

Y Pasc

— YN —

.. RHYDYGWIN ..

Nos Fawrth a Dydd Mercher, Ebrill 9 a 10, 1929.

Trefn y Cyfarfodydd—

Nos Fawrth am 6.30—Pregethir gan y Parchn. T. OSWALD WILLIAMS, M.A., Brondeifi a T. ARTHUR THOMAS, Llandysul.

Dydd Mercher, am 10.—Pwyllgor y Gymdeithas.

Rhaglen.

(1) Darllen Cofnodion y Pwyllgor diweddaf.
(2) Penodi cynrychiolydd i Gyfarfodydd y "General Assembly."
(3) Ymddiriedolwyr Penrhiw.
(4) Yr Achos yn Aberystwyth.
(5) Adroddiad ar y "Casgliad o Emynau at Wasanaethau Arbennig."
(6) Lle cynhaliad y Cyfarfodydd Blynyddol.
(7) Cyflwyno i'r Gymdeithas y rhai sydd yn bwriadu cyflwyno'u hunain i waith y Weinidogaeth.
(8) Unrhyw fater arall.

Dydd Mercher am 2. Pregethir gan y Parchn. H. H. CEIRION JONES, B.A., Caerdydd a'r Prifathro J. PARK DAVIES, M.A., B.D., Caerfyrddin.

Dydd Mercher am 6.—Pregethir gan y Parchn. E. R. DENNIS, Aberdar a D. G. REES, Trebanos.

Rhydd Gweinidog ac Eglwys Rhydygwin groeso caredig i bawb.

E. O. JENKINS, (*Ysg.*).

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Cawn yn dâl rhyw doc a chiltyn,
O flawd ceirch cawn lawer pecyn :
Gan y merched fe gawn geiniog,
Yr oedd pawb yn llon a serchog.

Pennu'r dydd ac at y Person
A phriodi dan ostegion,
Ond mae heddiw'n hynod ddiflas
Heb *shigouts* ar ddydd priodas.

Nid oedd "*gant*" gan undyn nemor,
A dibynnid ar y neithior :
Fe ddechreuid byd yn burion
Heb un *waddol* ond y *pwython*.

Ni cheid *ysgar* gynt drwy'r henwlad,
Ond rhoi'r "*ceffyl pren*" weryriad ;
Onid ydoedd pawb yn ffyddlon
Ac yn byw fel hên gariadon.

Yn lle'r "*ceffyl pren*"—ysgaru ;
A cheir *dole* nid byw a charu ;
Nid yw'r byd fawr gwell ei gyflwr—
Dyna farn hên Shôn Wahoddwr."

T.B.S.

Dalennau o'm Dyddiadur.

SEFYDLIAD poblogaidd diweddar ydyw a elwir "The Wayside Pulpit"—pulpud ymyl y ffordd. Beth yw hyn? ebe rhywun. Wn i ddim sut y medraf ei ddisgrifio fel ag i roddi i'r darllenydd syniad eglur a chywir am a ydyw. Gwnaf ymgais fel hyn : tu allan i gapel neu eglwys, mewn safle y gall pobun a êl heibio ei gweld, crogir astell ; arni, naill ai yn hwyr y Sadwrn neu yn fore y Sul, gosodir dalen o bapur, gyda dywediad byr, cryno, cyfoethog o feddwl gwerthfawr, a all brofi'i hun o help i'r darllenydd o hono, wedi'i argraffu mewn llythyren fras—frased fel na raid wrth "spectol" cyn y gellir ei weld a'i ddarllen. Beth, ynte, yw'r diben? Yr un ag eiddo pregeth : yn wir, nid yw amgen na phregeth wedi'i berwi i lawr tu fewn i gwmpas byr. Pam y gwneir hyn? Yr ateb yw—os na ddaw'r bobl i mewn i'r

capel, rhaid mynd â'r bregeth allan i'r heol at y bobl. Priodolir dywediad i Fahomet a gynnwys awgrymiad cyffelyb—os na ddaw'r mynydd at Fahomet, rhaid i Fahomet fynd at y mynydd. Dywedir bod yr arferiad yn dod fwy-fwy cyffredin a phoblogaidd yn Lloegr ac yn yr Amerig, yn y trefydd a'r dinasoedd mawr yn fwyaf neilltuol. Dywedir, hefyd, bod digon o dystiolaethau y'i gwerthfawrogir. Nid peth anarferol ydyw gweld torf o fobl yn sefyll o flaen yr astell.

Fe'm harweiniwyd i sylwi ar y mater hwn oblegid derbyn o honof yn ddiweddar lyfryn a gynnwys gyfres dywediadau addas i'w gosod ar yr astell bob Sul o'r flwyddyn—rhyw ddeuddeg a deugain o honynt. Casgliad yw cynnwys y llyfryn o ddywediadau a fu ar astell y "Wayside Pulpit" ynglyn ag un o gapeli Undodaidd Manceinion; yn wir, credaf mai i'r capel hwn y perthyn yr anrhydedd o roddi bod i'r sefydliad. Perthyn rhywbeth i bobun o'r dywediadau a edy argraff ar feddwl y darllenydd a erys—wel, hyd y daw dywediad arall yr un mor darawiadol i'w ymlid i ffwrdd. Eithr nid ymedy'r argraffiadau a adewir ar y meddwl gan un o honynt yn hollol lwyr. Er iddynt gael eu hymlid i ffwrdd dros amser, deuant yn ol drachefn, gan beri i'r darllenydd o honynt fynd trwy gwrs o hunan-holiad a all fod o fendith iddo.

Sylwer, er enghraifft, ar y dywediad ar gyfer y Sul cyntaf o'r flwyddyn: "Eiddot ti yw'r flwyddyn newydd: na wastraffa hi." Ni all a'i darlleno ar ddydd cyntaf blwyddyn newydd lai na theimlo rhywfath ar ysgydwad enaid a bair iddo feddwl—ie, a bair iddo feddwl; a dwys ystyried. Ddechreu blwyddyn, gorwedd y flwyddyn gyfan o'i flaen fel dalen wen, y gall ysgrifennu arni hanes ymdrech ddewr mewn llawysgrifen eglur, ddesthus, raenus, lân, a ddyry fwynhad i'r neb a'i darlleno: y gall, hefyd, ei llychwinio â ffurfiau afluniaidd, atler, tebig i ysgrifen plentyn bach pan roddir pen ac inc a phapur gwyn o'i flaen. Rhyw anystyriaeth o werth a phwysigrwydd amser a gyfrif am yr olaf. Beth fedr ddeffro dyn yn fwy effeithiol na chael ei wynebu fel hyn yn ddirybudd gan ddywediad o fath yr un a ennwyd uchod?

O droi dalen neu ddwy, gwelais a ganlyn: "Bydd siriol; ni wna bod yn ansiriol un lles hyd yn oed i ti dy hun." Os bu dywediad erioed â'i lond o Efengyl, y mae hwn yn un; ac efengyl ydyw a mawr angen am dani. Rhyw drymder ysbryd, a ymyla'n aml ar fod yn surni, a llina ddyn yn fynych iawn—yn wir, yn rhy gyffredin o lawer. Yn rhy aml, trymlwytha dyn ei hun, nid yn unig â'r gofidiau a fu ac y sydd, ond hefyd â'r gofidiau a ddaw eto, ac na ddeuant byth efallai. Gwir ydyw bod digon o'r hyn a dybir yn annymunol mewn bywyd a duedda i yrru dyn i lawr i'r hyn

a eilw Delynog yn "bentref iselder ysbryd." Eithr pethau heb un sail wirioneddol iddynt yw'r rhan fwyaf o honynt. Rhyw groesi'r bont ymhell cyn dod ati yw cryn lawer o'r gofidiau a flina ddyn. Cyn dod i olwg y bont, blinir sut yr eir drosti; eithr ar ol dod ati, eir drosti'n ddigon rhwydd. Nac eler i gwrdd â gofidiau cyn bod rhaid. "Bydder siriol,"—hyd y daw adfyd: a phan ddaw'r adfyd, os y daw, yr ysbryd siriol yw'r goreu. Nid peth hawdd yw hyn yn wastad; eithr gwir iawn y cân Cynan—"Y mae'n eitha hawdd bod yn siriol pan ddawnsia lli bywyd ymlaen; ond rhowch imi'r gŵr sydd â'i wên yn siwr pan fo popeth yn groes i'r graen: canys gofid a braw y galon, ac fe ddaw i bawb maes o law; a'r wên sy'n fwy drud na dim yn y byd yw'r wên trwy dy ddagrau a ddaw."

Onid cywir y disgrifiad o'r dywediad olaf uchod fel dywediad a'i lond o Efengyl? Oherwydd beth yw ystyr y gair Efengyl? Newydd da—fel y clywsom aml i dro yn ein hysgolion Sul. Onid newydd da ydyw popeth a duedda ddyn i edrych ar ochr olau pethau, i gredu bod yr haul tu ol i bob cwmwl er yn anweledig i'r llygad o gnawd, a bod Duw yn peri i bopeth gydweithio er daioni—gyda cydweithrediad dyn, wrth gwrs. Yn sier, gall dywediad o fath yr un y cyfeiriwyd ato, sef, "Bydd siriol; ni wna bod yn ansiriol un lles byd yn oed i ti dy hun," brofi'i hun fel diferyn o ddwfr ar enau'r sychedig i aml enaid y dydd ymron os nad wedi colli pob ffydd a gobaith oblegid caledi'r ymdrech.

Dyma ddywediad arall: "Cadw dy ben yn ddigon isel; felly fe achubi dy hun rhag aml i ergyd caled." Onid oes rhywbeth yn y dywediad a ddaw'n agos iawn atom i gyd? Pwy sydd na ddarfu iddo, lawer gwaith, daro'i ben wrth gapan drws rhy isel, a chael ei syfrdanu gan yr ergyd? Plygu'r pen yw'r unig ffordd i ochelyd anffawd o'r fath hyn. Dyna'r unig ffordd i ochelyd llymder yr ergydion aml eu rhyw y daw dyn wyneb yn wyneb â hwynt ar ei feunyddiol daith, a dod allan o'r perigl yn ddigraith, sef, trwy blygu'r pen; neu, y mae dyn, os myn, yn cael ei ddysgu gan brofiadau'r yrfa i ddod yn feistr ar ei dynged: nid yn llwyr, yn wir, ond i fesur mawr iawn.

"Dyn yn feistr ar ei dynged." Dwg yr ymadrodd i'm côf ddernyn o farddoniaeth Saesneg a gofnodais yn fy nyddlyfr rai blynyddoedd yn ol a ddyry fynegiad mewn iaith swynol i'r un fath ar feddwl a'r un yr ymdrinir ag ef uchod. Teitl y dernyn Saesneg ydyw—"Unconquerable"; a'i awdur yw'r bardd Henley. Ni fedraf roddi cyfieithiad o hono ar ffurf barddoniaeth; o ddiffyg hynny, efallai y dyry'r rhydd-gyfieithiad a ganlyn i'r darllenydd ryw syniad am a ydyw: "Allan o'r nos a'm cuddia i, ddued a'r

fagddu o gam i gam, diolchaf i ba dduwiau bynnag sy' am enaid na cheir arno nam. Yng ngafael erch helyntion byd, ni syflais, ac ni chriais 'chwaith ; tan lym ergydion creulon ffawd, er gwaedu 'mhen, 'rwyf yn ddigraith. Tu hwnt i ddig a dagrau'r daith, ymddyrcha dychrynfeydd y gwyll ; ond er bygythiad y blynyddoedd maith, 'rwyf eto'n rhydd o ofnau hyll. Nid pa mor gyfyng yw y porth, nad pa rhyw gosb a'm herys i, meistr ydwyf ar fy ffawd, capten f'enaid ydwyf fi." Dim ond y dyn siriol ei galon a fedr wynebu bywyd a'i brofiadau amrywiol yn ysbryd y llinellau hyn. Y mae hwn yn anorchfygadwy.

Dyna sypyn o ddywediadau'r llyfryn bach : " Boneddwr ydyw ef a wna bethau'n hawddach i eraill " ; Gwna dy ddyletswydd yn awr ; gall yfory fod yn rhy ddiweddar " ; " Edrych dyn ar y gweithredoedd allanol ; pwyso'r bwriadau a wna Duw " ; " Câr bawb. Ymddiried yn ychydig. Na wna ddrwg i neb." " Ar ol chwilio beiau, treia eu gwella ; a dechreu gyda thi dy hun " ; " y dial goreu ydyw anghofio." Nid ymhelaethaf ar un o'r rhai hyn : gadawaf rhwng y darllenydd â hwynt, i wneuthur a fynno â hwynt.

Dyma'r olaf y cyfeiriaf ato—y goreu o'r oll : " Eistedd i lawr, ddyn, a meddwl." O bopeth prin, y prinaf yw—meddwl. Dyna ffynhonnell pob amryfusedd y digwydd i ddyn syrthio iddo—diffyg meddwl.

D.E.

Hen 'Wyllys.

HEN 'Wyllys dyna i gyd ! Testun ffrae a dadl ac asgwrn cynnen ! Ba ddiddordeb i neb sydd mewn hen wyllys gan mlwydd oed a dim sôn amdanom ynddi ? Dim o'r mesur lleiaf ! Nid yw'n werth y papur teneu a llwyd y'i hysgrifennwyd arno, ac nid yw ei chynnwys o ddiddordeb nac o werth ei ail-adrodd. Beth fedrai fod mewn ewyllys hen wladwr syml diniwed ? Nid oedd ganddo na thai na thiroedd ond yr hyn a oedd ganddo a rannodd yn onest rhwng ei briod a'i blant. Ni ellid disgwyl rhagor oddiwrtho. Papur *wast* yw'r hen 'wyllys, dyna i gyd !

Dwn i ddim. Y mae yr hên 'wyllys yn ddiddorol ynddi ei hun a medr siarad ei hiaith ei hun. Yn wir wn i am ddim a fedr lefaru'n hyotlach na hi. Medr ddweyd y cyfan ond i chwi wrando a cheisio'i

deall. Fe gewch batrwm brith bywyd wedi'i wau'n frâs drwyddi, ac wrth geisio esbonio ambell edefyn meddyliwch am gariad a châs, ond nid yw'r patrwm i gyd yma am na wyddom a wnaeth yr hên wladwr dros rai o'i blant cyn ysgrifennu'r hen 'wyllys. Rhaid gwybod y cyfan cyn barnu, ond y mae'r llen wedi'i thynnu yn ol a'r gwladwr yn ysgrifennu'n frysiog a byd arall yn galw.

Y mae rhywun wedi gofalu am yr hen 'wyllys a ninnau a awydd gofyn arnom a foddlonodd bawb? Tybed na chredai un brawd fod yr "hen goffor deri" yn fwy o werth na'r "cwpwrdd cornel"? Bwy ŵyr? Y mae'r hen 'wyllys yn darllen yn onest o leiaf ac y mae hynny'n rhywbeth. Nid oes ynddi anghyfiawnder ar yr wyneb. Wrth edrych arni a'r inc wedi melynu gan henaint, y mae'n anodd peidio aros o weld enw y gwr a'i gwnaeth. Ba waeth pwy ydoedd? Mor aller yr edrych ysgrifen yr hen wladwr ac yntau'n torri'i enw am y tro olaf. Y mae'r inc wedi melynu cymaint nes tybio ohonom iddo'i dorri â gwaed. Tybed ei fod yn meddwl am y tro cyntaf y'i torrodd yn llanc ieuanc cyn cael chwarter o ysgol. Pwy a'i gwyliai'r adeg honno? Ei fam, debig iawn! Yr oedd dau'n ei wylio'r tro olaf yn torri'i enw—ac y mae'r *gwidneston* yn hyawdl fud. Anniben yw'r llawysgrif—coesau brain, chwedl yr hên bobol. Nid yw pob llythyren yn blaen iawn—rhyw awgrym mae'n debig fod y dyn wedi dechreu pacio gogyfer a'r daith olaf. Nid llawysgrifen gŵr anllythrennog mohoni. Ni chredaf fod henaint wedi pylu'i olwg na chrynu'i law. Eto y mae rhywbeth yn od ynddi. Tybed ei fod yn teimlo pwysigrwydd y tro—torri'i enw y tro olaf. Hwyrach fod angau ac yntau'n ymgodymu ac iddo dorri'i enw cyn cael ei lorio. Dyna awgrym y llawysgrifen ac fe'i cadarnheir gan y *gwidneston* y pregethwr a'r meddyg. Y mae rhywbeth yn bod pan fyddo'r ddau hyn wrth erchwyn gwely undyn. Yr wyf i fy hun ar delerau da a'r ddau. Nid wyf yn ofergoelus ond rhaid cyffesu'r gwir. Pe bawn i ar fy ngwely clâf a'r ddau hyn gyda'i gilydd wrth fy erchwyn fe fuaswn innau'n teimlo rhyw ias oer yn dilyn fy asgwrn cefn, ond pe cawn wella i gael y *bill* hwyrach y buasai'r ias yn wahanol. pwy wyr?

Ni chofiaf am bregethwr yn rhoi tro amdanaf a minnau'n glaf. Na, nid wyf yn waeth na'r mwyafrif o bobl ond rhyw gadw draw y bydd pregethwyr ran amlaf oddiwrthof. Ni wn i pam. Hwyrach nad wyf wedi bod yn ddigon sâl i gael meddyg a phregethwr gyda'i gilydd a rhaid peidio bod yn *selfish*. Ond wrth yr hên 'wyllys yma, fe geir enwau'r ddau meddyg a phregethwr—cyfeillion glannau'r afon. Rhwydd yw paentio'r darlun. Gwelaf hên fwthyn tô gwellt dau pen—penisa a phenucha—nid oedd gegin a pharlwr i fythynnod tô gwellt, a dwy ffenestr un cwarel iddo.

Ar y ford yn y penucha o flaen y ffenestr y mae cannwyll ynghynn. Nid oes ond goleuni'r tân yn y penisa. Y mae'r cyfan fel y bedd a distawa'r plant ar yr hewl wrth fynd heibio. Wrth wrando clywir aml ochenaid ac wylo distaw ar yr aelwyd. y fam a'r plant debig iawn, ac yn y penucha rhyw riddfaniad hir. Gŵyr y fam neges y ddau yn y penucha a chofia am y claf yn torri'i enw ar lyfr yr Eglwys ddeugain mlynedd yn ol. Awn i'r rŵm. Darllena'r pregethwr yr hên 'wyllys yn ddifrif ddwys, griddfanna'r clâf cyn torri'i enw a'r meddyg am dro yn dal y gannwyll. Y mae'r gorchwyl prudd drosodd.A'r *gwidneston* adref. Ni bydd eu heisiau arno ef mwy a thry ei gefn ar y golau. Hwyrach y gwel olau arall. Y mae'n tynnu'n galed drwy'r nos a chyda'r wawr y mae'n gwawrio arno yntau. * * *.

Trof eilwaith at yr hên 'wyllys ac yr wyf yn iawn. Caf iddo ei harwyddo y noson cyn iddo farw. Nid oedd eisiau edrych. Fe ddywedai'r *gwidneston* gymaint a hynyna wrthom. Rywsut y mae cysgod y glyn ar yr hên 'wyllys.

Ymhen tridiau daw dydd yr angladd. Pawb yn holi am y 'wyllys, a'r gwŷr y sy'n gwybod popeth yn awgrymu ei fod wedi gadael "ceiniog fach" chwedl hwythau ar ei ol. Ceisia rhai dynnu siarad a'r pregethwr ac yntau'n sôn am y tywydd a'r golled i'r teulu gan dynnu siarad arall. Cyn cyrraedd y fynwent fe wneir a phrofir llawer ewyllys heblaw ewyllys yr hên wladwr. Pwysir a mesurir y marw. Cofir am lu o droion caredig a myn ambell un gofio troion gwahanol.

Wedi claddu nid yw'r dyrfa'n gwasgar. Y mae rhyw gywreinrwydd dall yn eu cadw yno, a lleda'r si o ben i ben y darllenir y 'wyllys yn nhy'r capel. Af innau i mewn fel un o'r teulu. Rhywbeth oer yw gwrando ewyllys yn cael ei darllen—y mae fel llais rhyw ysbryd crwydr yn y glyn. Y mae deigryn brwd a gloyw ar ruddiau'r fam a'r plant wrth sôn am chwalu'r hen gartref a rhannu'r dodrefn. Caiff un yr hen "goffor deri"—coffor a fedrai ddweyd hanes dwy neu dair canrif o leiaf. Y mae'i wyneb du wedi'i rwbio mor aml a chŵyr nes y medrwch weld eich wyneb ynddo. Y mae'r hên goffor deri yn sôn wrth y plant am y "rhuddin" oedd yng nghymeriad y tad. Caiff arall y "cwpwrdd cornel," arall yr hen wely deri, a'r ferch y seld o'r llestri a neb yn gwybod oed yr hên *jwgau*. Nid yw rhannu'r hen ddodrefn o ddiddordeb i'r dorf a disgwylir clywed faint o arian a oedd ganddo. Araf araf y darllena'r pregethwr, fel pe bai am boeni cywreinrwydd y gwrandawyr ond heb ei foddloni.

Swm a sylwedd yr ewyllys yw rhannu'r tipyn arian rhwng y plant ond—a dyma'r clo—*wedi marw yr hen wraig.*

O edrych, yn myw llygaid y plant, nid wyf yn sicr eu bod wedi eu boddloni i gyd. Ni ddywedant ddim ond gallaf feddwl fod yna gymharu y "coffor deri," y "cwpwrdd cornel," y "gwely deri" a'r seld a'r llestri. Y mae yna rywun hwyrach wedi cyfrif ei siar ac wedi troi cil ei lygad ar ei fam er gweld pa faint y bydd raid iddo ddisgwyl. Dyna yw'r natur ddynol.

Troir tuag adref. Nid yw'r hên fwthyn yr un. Y mae'r gadair freichiau ger y tân yn wâg. Distaw iawn yw'r penucha. Nid oes yno na pheswch na griddfan. Ymedy'r plant i'w cartrefi eu hunain. Y mae aelwyd pob un yn galw.

Wedi cau a chloi'r drws ar ol yr olaf, edrych yr hên wraig i'r tân. Daw ambell ddeigryn i loywi'r llygad ar dro. Y mae'n adolygu'r daith. Y mae'r plant wedi mynd. Y mae cymar deugain mlynedd yn fud a distaw ac nid oes yn aros ond atgofion melys heno—rhyw bresenoldeb byw ac anweledig. Nid yw'n unig. * * * Ben bore fe'i ceir hithau wedi diane adref ac yn ei llaw yr hen 'wyllys—rhyw *dicod* i ddweyd y ffordd neu'r henwr yn gafael yn ei llaw i'w harwain adref fel yr harweiniodd efe hi at yr allor ddeugain mlynedd yn ol.

N. a N.

Marwgofion.

Sul, Chwefror 17, Sarah, annwyl briod William Lewis, Pantrhiwddulas, Talgarreg, yn 38 oed. Blinid hi gan afiechyd poenus er's misoedd lawer a gwaethygodd yn enbyd ryw ddau niwrnod cyn ei marw—yna ar ol cystudd caled, byr, ffarweliodd. Merch ydoedd i'r diweddar Evan a Mary Thomas, Fadfa, a phan yn blentyn a merch ieuanc, bu'n ffyddlon iawn gyda'r achos ym Mwlchyfadfa, ond wedi ymbriodi aeth gyda'i phriod i eglwys Pisgah lle y profodd ei hun yn aelod ffyddlon. Yr oedd yn fenyw ieuanc o ysbryd hynaws a charedig a hoffid hi yn fawr gan ei chydnabod. Profodd ei hun yn wraig dda, ofalus. Yr oedd ganddi ddawn arbennig ar dorri gwaith allan a threfnu goruchwylion dydd ar ol dydd. Mae'r priod wedi cael colled fawr. Heblaw efe gadawodd ddwy chwaer a brawd i wylo ei cholli. Claddwyd y Gwener dilynol ym mynwent Pisgah. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins; E. D. Jones (A) a E. S. Davies, (M.C.), Capel Drindod.

Chwefror 28, ar ol cystudd byr a chaled, Elizabeth Anne, annwyl briod Tom Jones, Ralltfach, Pontshaen, yn 40 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Evan a Mary Thomas, Fadfa, ac yr oedd yn chwaer i'r Mrs. Sarah Lewis, marwolaeth yr hon a gofnodir uchod. Wedi marw ei thad bu hi a'i llysfam yn byw am flynyddoedd yn Tynewydd, ger Bwlchyfadfa ac wrth yr enw "Lizzie Tynewydd" yr adnabyddid hi gan ei chyfeillesau. Bu'n ffyddlon iawn yn y Bwlch er yn blentyn ac anfynych iawn y gwelid ei lle yn wâg, ac wedi symud i'r Alltfach i fyw ymwelai â ni yn achlysurol er fod y

ffordd ymhell, ac arosodd yn aelod hyd y diwedd. Tra yn Tynewydd bu'n hael a charedig gyda'i bwyd—weithiau gwahoddai lond y tŷ o'i chyfeillesau i gael tê er eu galluogi i aros i wasanaeth yr hwyr neu'r ysgol gân. Yr oedd o yspryd hynaws a siriol a medrai chwerthin yn iachus. Cwyna cylch helaeth o gyfeillion ei marw cynnar. Gadawodd i alaru briod, merch fechan, brawd a chwaer a llawer o berthynasau ereill. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym Mwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. Arthur Thomas.

Mawrth 7, yn 44 mlwydd oed, wedi rhyw wythnos o gystudd caled, o'r Pneumonia, bu farw Henry Jones, Cwmbedw, Treherbert, gynt o'r Cwarre, Pentrebach, Llanwnen. Gweithiwr tawel a diwyd ydoedd ac iddo air da gan bawb. Nid oedd wedi mwynhau iechyd cryf ers blynyddoedd ond daliodd wrth ei waith gan ofalu am ei deulu bach. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Capel Alltyblaca. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Mr. Rogers, Bethel, Caio a Mr. Davies (Aberdeuddwr gynt). Pregethwyd yn y Capel gan ei Weinidog, y Parch. T. Eirug Davies, B.A., B.D., Soar ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd weddw ieuanc a phedwar o blant bach amddifad heblaw brodyr a pherthynasau eraill i wylo'u colled.

Mawrth 8, yn Blaencefel Llandysul, John Henry Baker, ar ol bod yn gwaelu am fisoedd, yn 28 oed. Bachgen o swydd Kent ydoedd a daeth i'r ardal i wasanaethu mewn fferm pan yn 14 oed. Bu yma felly am 14 mlynedd ond yn ystod yr amser yna ni fu ond mewn pedwar lle ar wasanaeth; treuliodd chwech mlynedd mewn un lle a saith mewn lle arall—prawf ei fod yn weithiwr da ac yn fachgen gofalus. Yn wir yr oedd iddo air da gan bawb o'i gydnabod ac hiraetha llawer ar ei ol. Gadawodd dad a mam a brawd yn yr hen gartref ond ynherwydd afiechyd methasant ddod i'r angladd. Claddwyd y dydd Llun dilynol yn Llwynrhydowen a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Mawrth 9, yn 80 oed, Evan Davies, Brynhyfryd, Bwlchyfadfa, ond cyn hynny o Maespwll, Talgarreg—tad y Parch. James Glynne Davies, Comber. Hyd y gallodd cadwodd aelwyd iddo ei hun ym Maespwll ond tua diwedd y flwyddyn ddiweddaf ynherwydd henaint a llesgedd gadawodd yr hen nyth ac aeth i fyw at ei ferch Margaret i'r lle uchod lle y cafodd bob ymgeledd. Yn ystod ei oes faith bu'n byw mewn llawer i ardal ac felly aeth yn adnabyddus i lawer. Gwelodd lawer tro ar fyd, er hynny cadwodd yn gryf o ran ei ysbryd a chai bleser mawr wrth fynd dros yr hen amser ac adrodd straeon am y dyddiau gynt. Yn ei ddydd cyfrifid ef yn weithiwr gofalus a gonest ac yr oedd yn gymydog diddig a pharod. Gadawodd mewn galar dair merch a dau fab. Claddwyd y Mercher dilynol ym Mwlchyfadfa pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins, T. Lloyd, (E.), Llanon a D. W. Davies (E.), Talgarreg.

Mawrth 11, yn 76 mlwydd oed, bu farw Mary Hughes, Glan Thames, Talsarn, Felinfach, ar ol cystudd hir a chaled. Cymeriad tawel a diddrwg oedd, ac yn adnabyddus fel gwraig garedig a serchog a phawb yn hoff ohoni a gair da iddi. Yr oedd er's amser, oherwydd ei gwendid, wedi myned i fyw at ei mherch yn Love's Grove, ger Aberystwyth, yr hon a fu dyner iddi a gofalus iawn ohoni yn ei gwaeledd. Iau canlynol cludwyd ei gweddillion i orffwys i ymyl ei phriod a'i dwy ferch y rhai a'u rhagflaenodd rai blynyddoedd yn ol, yn Rhydygwin. Cydymdeimlir yn fawr a'r unig ferch, Mrs. Jones, Love's Grove, a erys ar ol i wylo o'r teulu a fu unwaith yn lluosog ac yn adnabyddus iawn yn yr ardal. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. J. Jenkins, M. Ellis, Aberystwyth a D. Evans, Cribyn.

Mawrth 12, yn 10 mlwydd oed, David John, plentyn Mr. a Mrs. Jones, Dyffryn, Drefach, yn y Sanatorium, Tregaron, wedi dihoeni amser hir. Plentyn bach annwyl ydoedd ac yn ffefryn hyd yn oed yn yr ysbyty. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Alltyblaca—y Parch. T. O. Williams, M.A. yn gwasanaethu yn yr angladd. Gadawodd dad a mam, brodyr a chwaer (un ohonynt yn Sanatorium, Alltymynydd) heblaw perthynasau eraill i alaru am y blodyn bychan tlws.

Sadwrn, Mawrth 16, yn dair wythnos oed, Matilda Jane, baban Isaac Emrys a May Hopkin, Rhanisaf, Trebanos, Pontardawe. Byr iawn a brau y bu bywyd yr un fach hon. Ni chafodd megis gyfle i roddi trem dros fywyd. Gyda ei bod yn wynebu ar y byd, wele alwad arni i droi yn ol. Onid braint ydyw? pwy wyr? Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees yn y tŷ annedd; a chladdwyd wrth Gellionnen, prynhawn y 18fed cynfisol. Gwyddom fod yr ardal a'r gymydogaeth mewn cydymdeimlad a'r tad a'r fam yn eu hiraeth ar ol y gariad fach.

Ymagorodd
Am funudyn;
Yna cefnodd
Y blodeuyn.

Ar y 16 o Fawrth, yn 17 mis oed, bu farw Evan, annwyl ac unig fab Capten a Mrs. Simon Jones, Castellnedd, ar ol cystudd byr, er galar dwys i'w rieni a'i ddwy chwaer fach a pherthynasau agos eraill. Claddwyd ym mynwent Henfynyw dydd Mawrth dilynol. Gweinyddwyd gan y Parch. T. C. Lewis, gweinidog y Tabernacl.

Ar y 17 o Fawrth, yn 76 oed, bu farw Rachel Howells, Maesgwyn, ger Cribyn, ar ol cystudd byr, gan adael priod, un mab, pum merch, a nifer luosog o wyrion ac wyresau, mewn galar ar ei hol. Bu'n briod a mam dda, yn gymydoges dawel, heddychol, a gair da iddi gan bawb a'i hadwaenai; a theimlir chwithdod o'i cholli. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Cribyn dydd Iau canlynol, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan y Parch. D. Evans, a gweddiwyd ar lan y bedd yn dyner iawn gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.

Mawrth 21, yn 150 Cottrell Road, Roath, Cardiff, N. Elizabeth Jones, annwyl briod Mr. Jenkin Jones (o Gaerfoel, Cribin) yn 55 mlwydd oed. Y mae i Mr. Jones lu o gyfeillion yn Sir Aberteifi, a sier fod cydymdeimlad yr Eglwysi yn Aberteifi a'r Eglwys yng Nghaerdydd lle y'i perchir yn fawr, gyda Mr. Jones yn ei hiraeth a'i ddagrau. Cafodd Mrs. Jones gystudd caled a phoenus, ond dioddefodd y cyfan yn amyneddgar. Yr oedd yn gymeriad prydferth, yn caru'r cartref ac yn fawr ei pharch gan gylch eang o gyfeillion. Claddwyd hi y dydd Mawrth dilynol yng Nghladdfa Gyhoeddus Caerdydd. Gwasanaethwyd gan y Parch. H. H. Ceiron Jones, B.A., Caerdydd gyda chynorthwy y Parch. Penry Thomas. Nerth a gaffo'r priod i alaru yn gymhedrol ar ei hol.

Nodion yr Eglwysi.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Yn yr Ysgoldy nos Lun, Chwefror y 11, dan lywyddiaeth y Gweinidog, a than nawdd Cymdeithas Ddiwylliadol y lle, rhoddwyd darlith ar y testun: "Pethau Cyffredin," gan y Bardd-bregethwr "Urbanus," Rhos, Pontardawe. Yr oedd yn gyfarfod da, a thrwch anarferol o eira yn mantellu bryn a dôl. Hwn oedd y cyfarfod olaf ond un o gyfres y gaeaf 1928—1929.

Eto, yn y Graig nawn a hwyr Sul, Chwefror 17, a'r Parch. D. G. Rees yn arwain y ddau gwrdd, pryd y rhoddodd deiliaid ieuainc, canol oed a hên yr Ysgol Sul eu talentau ar waith i adrodd, datganu a chwarae'n

offerynol i gynulliadau lluosog, yn enwedig yr hwyr. Cawd amrywiaeth da, ac *items* llenyddol a cherddorol chwaethus ac aruchel. Synnwyd ni gan y nifer fawr o'r plant lleiaf a gymerodd ran y prynhawn. Cawd gan gôr y lle hefyd anthem a chytgan a'r brawd Mr. H. H. Morgan yn arwain. Cyfeiliwyd y nawn gan Miss Annie Morgan, Mri. H. H. Morgan, H. J. Williams ac Isaac E. Hopkin; a'r hwyr gan Miss Lilian Bowen a Mr. Isaac Emlyn Hopkin; a'r gwaith o gasglu adnoddau y rhaglen yn llaw arolygydd yr Ysgol Sul, sef Mr. Lewis Morgan, Clydach ar Dawe.

Yn yr Ysgoldy nos Lun, Mawrth 11eg, cafwyd darlith gynhwysfawr gan y Parch. L. G. Lewis, Pontardawe, ar y testun: "Ar y trothwy," i gynulliad da. Cadeiriwyd gan y Parch. D. G. Rees. Hwn ydoedd y cyfarfod olaf o gyfres 1928—1929 dan nawdd Cymdeithas Ddiwylliadol y lle. Mae yna lawer o ymdrech ac aberth wedi ei wneud i gadw diddordeb o fewn y pyrth, a gobeithiwn gael eto fyw i weled ffrwyth y Gymdeithas yn torri allan ym mywydau y gwahanol aelodau; ac yn fendith a chaffaeliad i'r gynulleidfa ac i'r cylch yn gyffredinol.

LLWYNRHYDOWEN. — Nawn dydd Gwener, Mawrth 8, cafwyd gwledd odidog iawn o dê a moethau yn y lle hwn wedi eu darparu gan Mr. a Mrs. Griffith Davies, Bryn-clettwr. Pan addawodd y bobl dda hyn roddi gwledd, teimlem fod gwledd o radd uchel yn ein haros ac ni chawsom ein siomi. Wnaidim ond y pethau gorau'r tro ganddynt. Gan fod yr hin yn bopeth allesid ei ddisgwyl daeth torf fawr ynghyd a chafwyd amser difyr rhwng y bwyta a chwarae'r plant. Yn yr hwyr cynhaliwyd Cyngerdd Blynyddol yr Ysgol Sul yn yr hên gapel o dan lywyddiaeth y Cynghorwr Griffith Davies. Cafwyd rhaglen dda a llawer o gystadlu mewn adrodd, canu, etc. Beirniadwyd yr oll yn ddeheuig gan y parod Mr. D. Davies, Sychdy. Yn ystod yr hwyr gwobrwywyd y plant a llyfrau ac anrhegion braf oddiar y "goeden."

Sadwrn, Mawrth 16, cynhaliwyd Eisteddfod lwyddianus iawn yma o dan nawdd yr Ysgol Sul.

HEN DY CWRDD, ABERDAR. —Nos Lun, Mawrth 18, cawsom y pleser o wrando ar Mr. Sam Jones, Gohebydd Dramodol y "*Western Mail*" o Gaerdydd yn traddodi darlith dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliadol ar y testun "Yma a thraw." Trafododd ei bwnc mewn modd meistrolgar a diddorol iawn. Arweiniodd Mr. Jones ein meddyliau yn ol ymhell i'r gorffennol, ond nid yr agwedd arferol ddygai ger ein bron, ond ceisiodd ddangos i ni lawer o wendidau a berthynai i ni fel cenedl, ac nid yn unig ei crybwyll ond dug resymau i brofi paham yr ymddangosai pethau felly iddo. Credai ein bod yn colli ein annibyniaeth oherwydd anfoddlonrwydd i gael ein barnu, ac fod hyn yn peryglu ein cenedlaetholdeb. Disgrifiwyd i'n clywedigaeth lawer dull a modd y gallem fabwysiadu i gryfhau y muriau oddiamgylch i'n cenedlaetholdeb. Da o beth fyddai cael gan Mr. Jones ysgrifennu erthygl ar y cwestiwn yma er mwyn cyrraedd mwy o gynulleidfa na gafodd y noson yma, er gweled a allasai ein deffro fel cenedl o'r trwmgwsg y dioddefwn wrtho, ac i greu ynom ynni newydd.

BRONDEIFI.—Nos Iau, Mawrth 19, cynhaliodd Urdd y Benywod eu cwrdd cau am y Tymor. Rhoddwyd y tê gan Mrs. Davies, Penlan, Pencarreg a chafwyd popeth ar y goreu. Oherwydd afiechyd nid oedd cynifer wedi troi i'r tê ag y disgwylid. Cafwyd noson lawen a diddorol a chafwyd unawdau gan gantorion y lle. Talwyd diolch i Mrs. Thomas, Brynmeddyg am ei charedigrwydd yn dod i addysgu'r dosbarth drwy'r gaeaf, ac hefyd i Mrs. Davies am ei haelioni.

(Oherwydd diffyg gofod, bu raid cadw rhai Nodion hyd y rhifyn nesaf.)

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

:: Bradford House, Llandyssul ::

SPRING GOODS DAILY ARRIVING.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.